Llysgennad Oxbridge yng Nghymru

Dadansoddiad o gyrchfannau addysg uwch cyflawnwyr uchel o Gymru rhwng 2008–13

S Gallagher

Mehefin 2014

Yn ystod Prosiect Llysgennad Oxbridge, cododd cwestiwn ynglŷn â'r ystod o gyrchfannau addysg uwch myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi cynorthwyo Llysgennad Oxbridge i asesu cwmpas her Oxbridge.

ISBN digidol 978 1 4734 1670 3
© Hawlfraint y Goron 2014
WG22064

Cynnwys

Cefndir	**2**
Y data a gasglwyd	**3**
Canlyniadau dadansoddiad	**4**
Amrywiad rhanbarthol	**5**
Casgliadau	**6**
Atodiad A: Cyrchfannau cyflawnwyr uchel o Gymru yn 2008–13 yn ôl awdurdod lleol	**7**
Atodiad B: Cyfrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel sy'n astudio yng Nghymru	**12**

Cefndir

Yn ystod Prosiect Llysgennad Oxbridge, cododd cwestiwn ynglŷn â'r ystod o gyrchfannau addysg uwch myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel yng Nghymru. Mae'r gwaith ymchwil hwn wedi cynorthwyo Llysgennad Oxbridge i asesu ystod cwmpas her Oxbridge. Mae niferoedd uchel o fyfyrwyr o Gymru yn gwneud cais i brifysgolion sy'n canolbwyntio ar waith ymchwil – nid yw 'problem Oxbridge' o reidrwydd yn broblem i Grŵp Russell. Mae'r papur hwn hefyd yn trafod agweddau myfyrwyr sy'n astudio y tu allan i Gymru. Yn anecdotaidd, yr oeddem yn pryderu bod amharodrwydd i symud y tu hwnt i'r ffin yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael i gyflawnwyr uchel o Gymru, ond ymddengys nad yw hyn yn wir.

Y data a gasglwyd

Er mwyn gallu nodi cyrchfannau addysg uwch cyflawnwyr uchel o Gymru, prynwyd set ddata gan UCAS (University and Colleges Admissions Service). UCAS sy'n gyfrifol am weinyddu ceisiadau gan israddedigion i bob prifysgol yn y DU, ac maent hefyd yn casglu data ar gyrchfannau pob ymgeisydd addysg uwch. UCAS yw'r unig sefydliad sy'n casglu a dosbarthu'r wybodaeth hon.

Gwnaethom gais am set ddata o gyrchfannau addysg uwch myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel. Myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yw'r rhain, a oedd wedi cyflawni AAA neu uwch yn eu harholiadau Safon Uwch yn 2008-13. Gwnaethom gais i'r data gael ei ddarparu ar sail awdurdod lleol, er mwyn nodi unrhyw anghysondebau daearyddol yn y cyrchfannau. Nodwyd pum categori o gyrchfannau, a derbyniwyd nifer y myfyrwyr ym mhob categori ar gyfer pob awdurdod lleol. Y rhain oedd:

- Prifysgol Grŵp Russell y tu allan i Gymru (h.y. ac eithrio Caerdydd)
- Prifysgol Grŵp Russell y tu allan i Gymru ac eithrio Rhydychen a Chaergrawnt
- Prifysgol Grŵp Russell yng Nghymru (h.y. Prifysgol Caerdydd)
- Prifysgol arall yng Nghymru
- Prifysgol Arall (h.y. prifysgol nad yw yng Nghymru ac nad yw'n brifysgol Grŵp Russell)

Er mwyn sicrhau cyfrinachedd, mae UCAS yn adolygu canlyniadau tri neu lai o fyfyrwyr. Pan fydd canlyniad mwy na thri wedi'i ddychwelyd, rhoddir enw'r brifysgol a nifer y myfyrwyr a dderbyniwyd hefyd. Mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn esbonio rhywfaint o'r anghysondebau yn y data a gyflwynwyd.

Canlyniadau dadansoddiad

Mae'r tabl isod yn rhoi amlinelliad o gyfran gyfartalog cyflawnwyr uchel o Gymru ar draws y 22 awdurdod lleol sydd wedi mynychu pob categori o brifysgol rhwng 2008-13. Roedd bron i chwarter y cyflawnwyr uchel yn symud ymlaen i Gaerdydd, ac nid yw hyn yn syndod oherwydd dyma'r unig brifysgol Grŵp Russell yng Nghymru, ac mae'n cynnig llawer o gyrsiau tariff uwch[1]. Mae dros hanner y cohort yn mynd i brifysgolion Grŵp Russell yng ngweddill y DU. Mae'r grŵp hwn o brifysgolion yn cynrychioli'r cyrsiau mwyaf cystadleuol yn y DU. Er bod cyrsiau tariff uwch yn bodoli mewn sefydliadau eraill, mae Grŵp Russell yn brocsi rhesymol ar gyfer prifysgolion cystadleuol sy'n canolbwyntio ar waith ymchwil. Unwaith eto, nid yw cyfran gyffredinol y myfyrwyr sy'n mynd i'r prifysgolion hyn yn peri syndod o ystyried y gallai cyflawnwyr uchel gael eu denu i gyrsiau tariff uwch. Roedd yr un rhan o bump o fyfyrwyr sy'n weddill yn y cohort yn mynychu prifysgolion eraill, naill ai yng Nghymru neu yng ngweddill y DU.

Tabl 1.1: Cyfran y myfyrwyr AAA o Gymru sy'n mynychu categorïau prifysgolion rhwng 2008-13

% i Brifysgol Caerdydd	% i brifysgol Grŵp Russell nad yw yng Nghymru	% i brifysgol arall yng Nghymru	% i brifysgol arall yn y DU
23.2%	55.6%	6.2%	15.0%

[1] Cyrsiau sydd â gofynion mynediad uchel, graddau A*-B Safon Uwch fel arfer

Amrywiad rhanbarthol

Ar ôl nodi'r gyfran gyfartalog o gyflawnwyr uchel o Gymru, fe aethom ati i asesu amrywiad rhanbarthol o'r waelodlin hon. Cyflwynir y data hwn yn Atodiad A. Nid yw cymharu cyfran y myfyrwyr sy'n mynychu pob categori o brifysgol yn ôl awdurdod lleol bob amser yn syml oherwydd, mewn nifer o'r achosion, mae'r nifer fach o fyfyrwyr yn y cohort awdurdod lleol yn cynhyrchu cyfrannau ystumiol, o'u cymharu â chyfrannau awdurdodau lleol eraill. Mae angen edrych ar gyfanswm y myfyrwyr ochr yn ochr â'r cyfrannau.

Roedd cyfartaledd o 78.8% o gyflawnwyr uchel yng Nghymru yn mynd i un o brifysgolion Grŵp Russell, naill ai Prifysgol Caerdydd neu un o sefydliadau Grŵp Russell yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mewn awdurdodau lleol unigol, mae'r ffigur hwn yn amrywio o 72.1% (Castell-nedd Port Talbot) i 87.2% (Blaenau Gwent). Mae'r ffigurau hyn yn galonogol; mae tri chwarter y myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel yn mynd ymlaen i astudio yn un o brifysgolion Grŵp Russell. Pan fydd y gyfran hon ychydig yn is na'r cyfartaledd, er enghraifft yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'r data ar gyrchfannau yn dangos esboniad rhesymol ar gyfer hyn: mae cyfran uwch o fyfyrwyr o Gastell-nedd Port Talbot yn mynychu prifysgol yng Nghymru nad yw'n rhan o Grŵp Russell, Prifysgol Abertawe yn bennaf, sy'n agos yn ddaearyddol, ac yn sefydliad uchel ei barch.

Mae Atodiad B yn dangos bod cyfrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel sy'n aros yng Nghymru i astudio mewn addysg uwch. Yn ôl y disgwyl, ceir rhywfaint o amrywiad rhanbarthol gyda'r awdurdodau lleol sy'n agosach at y ffin â Lloegr yn datgan cyfraddau is o fyfyrwyr sy'n aros yng Nghymru. Mae rhai eithriadau nodedig, er enghraifft, mae gan Ynys Môn gyfran is na'r cyfartaledd o fyfyrwyr sy'n aros yng Nghymru i astudio. Yn yr un modd, mae ardaloedd sydd ymhellach oddi wrth y ffin, naill ai mewn pellter neu mewn amser teithio, yn datgan lefelau uwch o fyfyrwyr sy'n aros yng Nghymru. Nid yw hyn yn destun pryder: o ddarllen hyn ochr yn ochr â'r data a gyflwynwyd yn y paragraff blaenorol, gwyddom y bydd nifer fawr o'r myfyrwyr hyn yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n gyrchfan addysg uwch gwych.

Casgliadau

Mae'r darlun yn ymddangos yn un cadarnhaol. Mae tri chwarter y cyflawnwyr uchel yng Nghymru yn mynychu prifysgolion Grŵp Russell, ac ymddengys nad yw daearyddiaeth yn ffactor sy'n effeithio ar y penderfyniad hwn. Gwyddom fod y papur a gyhoeddwyd gyda'r papur hwn, sef "Cyrhaeddiad myfyrwyr Cymru a'r ymgeiswyr sy'n cael eu derbyn yn Rhydychen a Chaergrawnt: y dystiolaeth", yn datgan nad yw'r lefelau disgwyliedig o fyfyrwyr o Gymru yn mynd ymlaen i Rydychen a Chaergrawnt. Oherwydd bod y myfyrwyr hyn, sy'n cyflawni'n uchel, yn mynychu cyrsiau tariff uwch mewn prifysgolion gwych eraill, mae'n rhaid i ni archwilio'r rhesymau sy'n sail i ddiffyg llwyddiant derbyniadau myfyrwyr o Gymru i Rydychen a Chaergrawnt.

Atodiad A: Cyrchfannau cyflawnwyr uchel o Gymru yn 2008–13 yn ôl awdurdod lleol

Yn byw yn	Grŵp Sefydliad	Cyfanswm 6 blynedd	Cyfartaledd 6 blynedd	% i Gaerdydd	% i brifysgolion eraill GR	% i brifysgol arall yng Nghymru	% i brifysgol arall yn y DU
Blaenau Gwent	Caerdydd	21	3.5				
Blaenau Gwent	Arall	3	0.5				
Blaenau Gwent	Arall yng Nghymru	3	0.5				
Blaenau Gwent	Grŵp Russell	20	3.3				
Blaenau Gwent	**Cyfanswm**	**47**	**7.8**	**44.7%**	**42.6%**	**6.4%**	**6.4%**
Pen-y-bont ar Ogwr	Caerdydd	83	13.8				
Pen-y-bont ar Ogwr	Arall	51	8.5				
Pen-y-bont ar Ogwr	Arall yng Nghymru	27	4.5				
Pen-y-bont ar Ogwr	Grŵp Russell	136	22.7				
Pen-y-bont ar Ogwr	**Cyfanswm**	**297**	**49.5**	**27.9%**	**45.8%**	**9.1%**	**17.2%**
Caerffili	Caerdydd	106	17.7				
Caerffili	Arall	38	6.3				
Caerffili	Arall yng Nghymru	19	3.2				
Caerffili	Grŵp Russell	99	16.5				
Caerffili	**Cyfanswm**	**262**	**43.7**	**40.5%**	**37.8%**	**7.3%**	**14.5%**
Caerdydd	Caerdydd	214	35.7				
Caerdydd	Arall	187	31.2				
Caerdydd	Arall yng Nghymru	36	6.0				
Caerdydd	Grŵp Russell	839	139.8				
Caerdydd	**Cyfanswm**	**1276**	**212.7**	**16.8%**	**65.8%**	**2.8%**	**14.7%**
Sir Gaerfyrddin	Caerdydd	163	27.2				
Sir Gaerfyrddin	Arall	68	11.3				
Sir Gaerfyrddin	Arall yng Nghymru	48	8.0				

Sir Gaerfyrddin	Grŵp Russell	252	42.0				
Sir Gaerfyrddin	**Cyfanswm**	**531**	**88.5**	**30.7%**	**47.5%**	**9.0%**	**12.8%**
Ceredigion	Caerdydd	53	8.8				
Ceredigion	Arall	27	4.5				
Ceredigion	Arall yng Nghymru	19	3.2				
Ceredigion	Grŵp Russell	115	19.2				
Ceredigion	**Cyfanswm**	**214**	**35.7**	**24.8%**	**53.7%**	**8.9%**	**12.6%**
Conwy	Caerdydd	26	4.3				
Conwy	Arall	31	5.2				
Conwy	Arall yng Nghymru	11	1.8				
Conwy	Grŵp Russell	160	26.7				
Conwy	**Cyfanswm**	**228**	**38.0**	**11.4%**	**70.2%**	**4.8%**	**13.6%**
Sir Ddinbych	Caerdydd	33	5.5				
Sir Ddinbych	Arall	36	6.0				
Sir Ddinbych	Arall yng Nghymru	7	1.2				
Sir Ddinbych	Grŵp Russell	120	20.0				
Sir Ddinbych	**Cyfanswm**	**196**	**32.7**	**16.8%**	**61.2%**	**3.6%**	**18.4%**
Sir y Fflint	Caerdydd	22	3.7				
Sir y Fflint	Arall	48	8.0				
Sir y Fflint	Arall yng Nghymru	3	0.5				
Sir y Fflint	Grŵp Russell	220	36.7				
Sir y Fflint	**Cyfanswm**	**293**	**48.8**	**7.5%**	**75.1%**	**1.0%**	**16.4%**
Gwynedd	Caerdydd	81	13.5				
Gwynedd	Arall	27	4.5				
Gwynedd	Arall yng Nghymru	55	9.2				
Gwynedd	Grŵp Russell	153	25.5				
Gwynedd	**Cyfanswm**	**316**	**52.7**	**25.6%**	**48.4%**	**17.4%**	**8.5%**
Ynys Môn	Caerdydd	27	4.5				

Ynys Môn	Arall	26	4.3				
Ynys Môn	Arall yng Nghymru	10	1.7				
Ynys Môn	Grŵp Russell	93	15.5				
Ynys Môn	**Cyfanswm**	**156**	**26.0**	**17.3%**	**59.6%**	**6.4%**	**16.7%**
Merthyr Tudful	Caerdydd	14	2.3				
Merthyr Tudful	Arall	9	1.5				
Merthyr Tudful	Arall yng Nghymru	3	0.5				
Merthyr Tudful	Grŵp Russell	37	6.2				
Merthyr Tudful	**Cyfanswm**	**63**	**10.5**	**22.2%**	**58.7%**	**4.8%**	**14.3%**
Sir Fynwy	Caerdydd	63	10.5				
Sir Fynwy	Arall	69	11.5				
Sir Fynwy	Arall yng Nghymru	8	1.3				
Sir Fynwy	Grŵp Russell	330	55.0				
Sir Fynwy	**Cyfanswm**	**470**	**78.3**	**13.4%**	**70.2%**	**1.7%**	**14.7%**
Castell-nedd Port Talbot	Caerdydd	90	15.0				
Castell-nedd Port Talbot	Arall	51	8.5				
Castell-nedd Port Talbot	Arall yng Nghymru	28	4.7				
Castell-nedd Port Talbot	Grŵp Russell	114	19.0				
Castell-nedd Port Talbot	**Cyfanswm**	**283**	**47.2**	**31.8%**	**40.3%**	**9.9%**	**18.0%**
Casnewydd	Caerdydd	97	16.2				
Casnewydd	Arall	54	9.0				
Casnewydd	Arall yng Nghymru	10	1.7				
Casnewydd	Grŵp Russell	233	38.8				
Casnewydd	**Cyfanswm**	**394**	**65.7**	**24.6%**	**59.1%**	**2.5%**	**13.7%**

Sir Benfro	Caerdydd	82	13.7				
Sir Benfro	Arall	53	8.8				
Sir Benfro	Arall yng Nghymru	10	1.7				
Sir Benfro	Grŵp Russell	146	24.3				
Sir Benfro	**Cyfanswm**	**291**	**48.5**	**28.2%**	**50.2%**	**3.4%**	**18.2%**
Powys	Caerdydd	70	11.7				
Powys	Arall	77	12.8				
Powys	Arall yng Nghymru	31	5.2				
Powys	Grŵp Russell	256	42.7				
Powys	**Cyfanswm**	**434**	**72.3**	**16.1%**	**59.0%**	**7.1%**	**17.7%**
Rhondda, Cynon, Taf	Caerdydd	108	18.0				
Rhondda, Cynon, Taf	Arall	48	8.0				
Rhondda, Cynon, Taf	Arall yng Nghymru	29	4.8				
Rhondda, Cynon, Taf	Grŵp Russell	154	25.7				
Rhondda, Cynon, Taf	**Cyfanswm**	**339**	**56.5**	**31.9%**	**45.4%**	**8.6%**	**14.2%**
Abertawe	Caerdydd	132	22.0				
Abertawe	Arall	110	18.3				
Abertawe	Arall yng Nghymru	73	12.2				
Abertawe	Grŵp Russell	399	66.5				
Abertawe	**Cyfanswm**	**714**	**119.0**	**18.5%**	**55.9%**	**10.2%**	**15.4%**
Torfaen	Caerdydd	47	7.8				
Torfaen	Arall	29	4.8				
Torfaen	Arall yng Nghymru	10	1.7				
Torfaen	Grŵp Russell	71	11.8				
Torfaen	**Cyfanswm**	**157**	**26.2**	**29.9%**	**45.2%**	**6.4%**	**18.5%**
Bro Morgannwg	Caerdydd	106	17.7				
Bro Morgannwg	Arall	108	18.0				
Bro Morgannwg	Arall yng Nghymru	18	3.0				

Bro Morgannwg	Grŵp Russell	366	61.0				
Bro Morgannwg	**Cyfanswm**	**598**	**99.7**	**17.7%**	**61.2%**	**3.0%**	**18.1%**
Wrecsam	Caerdydd	36	6.0				
Wrecsam	Arall	46	7.7				
Wrecsam	Arall yng Nghymru	6	1.0				
Wrecsam	Grŵp Russell	203	33.8				
Wrecsam	**Cyfanswm**	**291**	**48.5**	**12.4%**	**69.8%**	**2.1%**	**15.8%**
Cyfanswm				**23.2%**	**55.6%**	**6.2%**	**15.0%**

Atodiad B: Cyfrannau'r myfyrwyr sy'n cyflawni'n uchel sy'n astudio yng Nghymru

Yn byw yn	% sy'n aros yng Nghymru
Blaenau Gwent	51.1%
Pen-y-bont ar Ogwr	37.0%
Caerffili	47.7%
Caerdydd	19.6%
Sir Gaerfyrddin	39.7%
Ceredigion	33.6%
Conwy	16.2%
Sir Ddinbych	20.4%
Sir y Fflint	8.5%
Gwynedd	43.0%
Ynys Môn	23.7%
Merthyr Tudful	27.0%
Sir Fynwy	15.1%
Castell-nedd Port Talbot	41.7%
Casnewydd	27.2%
Sir Benfro	31.6%
Powys	23.3%
Rhondda, Cynon, Taf	40.4%
Abertawe	28.7%
Torfaen	36.3%
Bro Morgannwg	20.7%
Wrecsam	14.4%
Cyfanswm	29.4%